

KYFFIN, RICHARD, deon Bangor (c. 1480-1502).

Enw: Richard Kyffin
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: deon Bangor
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Jones Pierce

Nid oedd yn perthyn i unrhyw gangen o deulu adnabyddus y Cyffiniaid. Y mae'n bur debyg mai ef oedd Richard ap John neu Ris ab Ieuan ap Ris ap Gruffydd, rheithor Gyffin yn esgobaeth Bangor, 'mab rhieni dibriod,' a gafodd yn 1470 drwydded gan y pab (gan ei fod wedi ei eni'n anghyfreithlon) i gael urddau eglwysig. Yr oedd yn ŵr gradd yn y gyfraith ganon. Pan oedd yn ddeon ymddengys ei fod yn gefnogwr gweithgar i **Harri Tudur** yn ystod y blynyddoedd cyn brwydr Bosworth. Ailadeiladwyd côr yr eglwys gadeiriol yn ystod ei dymor fel deon, a chyflwynwyd un o'r ffenestri (sy'n cynnwys lluniau y santesau Dwynwen a Chatrin) ganddo. Daliai reithoraeth Llanddwynwen. Sylfaenodd siantri S. Catrin yn yr eglwys gadeiriol ac fe'i claddwyd ef yn ei hymyl yn yr asgell groes ddeheuol. Y mae arysgrif mewn efydd yn dangos ei feddrod, a elwid hyd y 18fed ganrif yn fedd y Deon Du.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of Bangor; and the edifices belonging to it* (1721), 17, 34, 124

Calendar of entries in the Papal Registers relating to Great Britain and Ireland. Papal Letters, xii, 782

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734286

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). KYFFIN, RICHARD, deon Bangor (c. 1480-1502).. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-KYFF-RIC-1480>

Clipwrdd

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi gan
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government